# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd T. Theophilus (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
T. Bowen, J.M. Charles, A. Davies, P.M. Edwards, J.K. Howell, D.J.R. Llewellyn, D.E. Williams a/ac J.S. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Power - Uwch-swyddog Trwyddedu
P. Booth, Swyddog Trwyddedu
M Heath, Swyddog Trwyddedu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: **10.00 - 11.00 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Davies, I.J. Jackson, H.I. Jones, P.E.M. Jones a M.K. Thomas.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod. | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D.E. Williams | 5 - Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat - Mrs. Katy Victoria Griffiths | Mae'r ymgeisydd yn byw yn ei ward. |

**3. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR ANDREW STUART MARLING**

Atgoffwyd y Pwyllgor ei fod wedi gohirio ystyried yr eitem hon yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Hydref, 2015 (cofnod 10) gan nad oedd Mr Marling yn bresennol a hynny, fel y daeth yn hysbys, oherwydd camgymeriad gweinyddol ar ran yr Awdurdod. Hysbyswyd y Pwyllgor fod hyn wedi cael ei unioni ond bod Mr. Marling wedi rhoi gwybod i'r swyddogion na fyddai'n gallu bod yn bresennol yn y gwrandawiad heddiw.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried cais Mr Andrew Stuart Marling am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**4. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MRS SARAH JENNA WYNNE**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mrs Sarah Jenna Wynne, 30 Heol Santes Non, Caerfyrddin i adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mrs Wynne ynghylch ei chais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mrs. Wynne yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mrs. Sarah Jenna Wynne i adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddi ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

**5. TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MRS KATY VICTORIA GRIFFITHS**

[SYLWER: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd D. E. Williams y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Mrs. Katy Victoria Griffiths, Cedars, Bryn Hyfryd, Llangynnwr, Caerfyrddin, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod, a bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mrs. Griffiths ynghylch mater oedd wedi codi ynghylch ei thrwydded.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mrs. Griffiths yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mrs Katy Victoria Griffiths yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

**6. TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR CERI DAVIES**

Hysbyswyd y Pwyllgor fod Mr. Ceri Davies, 43 Heol Waterloo, Pen-y-groes, Llanelli, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod, a bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr. Davies ynghylch mater oedd wedi codi ynghylch ei drwydded.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr. Ceri Davies yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**7. CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR STUART WAYNE WILLIAMS**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr. Stuart Wayne Williams, 19 Stryd yr Ysgol, Y Morfa, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Williams ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Williams yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr. Stuart Wayne Williams am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**8. TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DAVID WILLIAM SQUIRE**

Hysbyswyd y Cyngor nad oedd Mr. Squire yn bresennol ac nad oedd wedi cysylltu â'r swyddogion i roi gwybod iddynt ei fwriad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y mater a oedd wedi codi ynghylch Trwydded Yrru Ddeuol Mr. David William Squire ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor ynghyd â rhoi gwybod iddo y gellid penderfynu ar y cais yn ei absenoldeb pe bai'n methu dod i'r cyfarfod hwnnw.**

**9. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR BENJAMIN WILLIAM EDWARD COLLINS**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr. Benjamin William Edward Collins o Ffynnonau-Gleision am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat. Roedd Mr. Collins yng nghwmni ei dad. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Collins ynghylch ei gais a chafodd ddatganiad gan ei dad.
Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Collins yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.
Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr. Benjamin William Edward Collins am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a'i fod yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**10. COFNODION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

**UNANIMOUSLY RESOLVED that the minutes of the meeting of Licensing Sub-Committee 'B' held on the 13th October, 2015 be signed as a correct record.**

**11. COFNODION**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 21ain Hydref, 2015 yn gofnod cywir.**

CADEIRYDD DYDDIAD